# Topotecan, hydroclorid doxorubicin liposomal wedi'i begyladu, paclitaxel, trabectedin a gemcitabine ar gyfer trin canser ofarïaidd sydd wedi dychwelyd

Ebrill 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Ar gyfer canser ofarïaidd rheolaidd, argymhellir y triniaethau posibl canlynol:

- paclitaxel (a elwir hefyd yn Taxol) ar ei ben ei hun neu gyda phlatinwm
- hydroclorid doxorubicin liposomal wedi'i begyladu (PLDH, a elwir hefyd yn Caelyx) ar ei ben ei hun neu gyda phlatinwm.

Ar gyfer canser ofarïaidd sydd wedi dychwelyd am y tro cyntaf ac sy'n sensitif i blatinwm, nid yw NICE yn argymell gemcitabine (Gemzar) gyda carboplatin (Paraplatin), trabectedin (Yondelis) gyda PLDH, neu topotecan (Hycamtin neu Potactasol). Nid argymhellir topotecan ar gyfer trin canser ofarïaidd sydd wedi dychwelyd sy'n gwrthsefyll platinwm neu'n blatinwm-anhydrin.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych ganser ofarïaidd sydd wedi dychwelyd a bod eich meddyg o'r farn mai paclitaxel ar ei ben ei hun neu gyda phlatinwm, neu hydroclorid doxorubicin liposomal wedi'i begyladu (PLDH) ar ei ben ei hun yw’r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai'r triniaethau hyn fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Efallai y gallwch gael triniaeth PLDH gyda phlatinwm ar y GIG cyn belled â bod eich meddyg yn cael eich caniatâd ysgrifenedig i'w roi i chi a bod y GIG yn eich ardal yn cytuno i'w ddarparu.

Os ydych eisoes yn cymryd gemcitabine gyda carboplatin, trabectedin gyda PLDH neu topotecan ar gyfer canser ofarïaidd sydd wedi dychwelyd, dylech

allu parhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

## Pam mae NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd paclitaxel a hydroclorid doxorubicin liposomal pegylated (PLDH) ar eu pen eu hunain neu gyda phlatinwm am eu bod yn gweithio'n well ac yn costio llai na thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Nid argymhellwyd gemcitabine gyda carboplatin a trabectedin gyda PLDH oherwydd, er eu bod yn gweithio bron cystal â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG, maent y costio mwy.

Nid argymhellwyd topotecan am nad yw'n gweithio cystal â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG ac mae'n costio mwy.

## Y cyflwr a'r triniaethau

Mae'r ofarïau yn rhan o system atgenhedlu merched. Mae canser ofarïaidd sydd wedi dychwelyd yn ganser sydd wedi dod yn ôl beth amser ar ôl eich triniaeth gyntaf. Gall triniaeth ei reoli, weithiau am lawer o fisoedd neu ychydig flynyddoedd.

Yng nghamau cynnar canser ofarïaidd, y driniaeth gyntaf fel arfer yw cemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm. Gellir rhannu canser ofarïaidd yn fathau gwahanol:

- platinwm-anhydrin: canser nad yw wedi ymateb i gemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm
- gwrthsefyll platinwm: canser sydd wedi ymateb i gemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm ond sydd wedi dychwelyd o fewn chwe mis i'r driniaeth
- sensitif i blatinwm: canser sydd wedi ymateb i gemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm ond sydd wedi dychwelyd chwe mis neu fwy ar ôl y driniaeth.

Mae paclitaxel (a elwir hefyd yn Taxol), hydroclorid doxorubicin liposomal wedi'i begyladu (PLDH, a elwir hefyd yn Caelyx), gemcitabine (Gemzar), carboplatin (Paraplatin), trabectedin (Yondelis) a topotecan (Hycamtin neu Potactasol) yn gyffuriau cemotherapi a ddefnyddir i ladd celloedd canser.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Ovarian Cancer Action, 0207 380 1730
- Ovacome, 0800 008 7054
- Target Ovarian Cancer, 0207 923 5470

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1892-8